

# Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 11. Ymgyrchu a dylanwadu

### 11.7 Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Trosolwg

Crëwyd Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyma gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'n gyfrifol am ddarpariaeth eiddo, staff ac adnoddau i gefnogi Aelodau'r Cynulliad (AC). Mae'r daflen hon yn darparu manylion pellach am y Comisiwn; ei rôl a'i waith a'i berthnasedd i'r trydydd sector yng Nghymru.

#### Rôl a gwaith

Mae'r Comisiwn yn cynnwys y Llywydd a phedwar Aelod arall a enwebwyd gan y prif bleidiau gwleidyddol. Clerc y Cynulliad yw pennaeth staff y Comisiwn, ac ef hefyd yw Prif Weithredwr y Comisiwn. Mae staff y Comisiwn yn cynnwys staff blaen-y-tŷ y Cynulliad Cenedlaethol; staff y Cynulliad sy'n ymwneud â chyfathrebu mewnol ac allanol, staff Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau a staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad, megis clercod pwyllgorau ymysg eraill.

#### Aelodau'r Comisiwn

Etholwyd y Comisiynwyr gan yr Aelodau yng Nghyfarfod Llawn 6 Mehefin 2007. Ynghyd a'r Llywydd, Rosemary Butler, sy'n cadeirio'r Comisiwn, yr aelodau yw Sandy Mewies AC, Angela Burns AC, Rhodri Glyn Thomas AC a Peter Black AC.

#### Cyfleoedd i'r trydydd sector

Mae'r Comisiwn yn ceisio gwella dealltwriaeth ac ymrwymiad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Golyga hyn fod yna gyfle i'r trydydd sector i wneud awgrymiadau i'r Comisiwn am sut i gyflawni'r nod yma, ac yn benodol, sut i gynnwys y sector yn effeithiol. Mae prosiect Lleisiau dros Newid Cymru yn canolbwyntio ar hyn fel blaenoriaeth allweddol, a byddwn yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan fudiadau sydd â syniadau ar y pwnc.

Mae hefyd yn ddefnyddiol i fudiadau'r trydydd sector ystyried ffyrdd o gysylltu gyda chyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Gall y gwasanaeth pwyllgor a'r gwasanaeth ymchwil aelodau fod yn ddefnyddiol iawn i fudiadau sy'n dymuno bod yn rhan o Fusnes y Cynulliad. Efallai y gallwch ystyried darparu disgrifiad o weithgareddau a maes diddordeb eich mudiad i glerc y pwyllgor fel y gellir eich diweddarau ar fusnes y pwyllgor, a chysylltu â chi os oes ymchwiliad yn digwydd. (Am fwy o wybodaeth ar gysylltu â'r Pwyllgorau, gweler taflen wybodaeth arall).

Mae gwasanaeth ymchwil yr Aelodau yn adran ddefnyddiol i gysylltu, gan ei fod yn darparu cefnogaeth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau archwilio a deddfu'r Cynulliad, ac i bob un o'r 60 AC a'u staff. Os ydych yn cynhyrchu unrhyw gyhoeddiadau, ymchwil, adroddiadau neu gyhoedduswydd, mae'n werth ei anfon at Y gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn ogystal â'r AC. Mae gan y gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau arweinyddion ar gyfer wahanol feysydd polisi, felly mae'n werth darganfod pwy sy'n arwain eich maes polisi chi (mae'r wybodaeth ar gael ar [www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-publications-research.htm#mrs](http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-assembly-publications-research.htm#mrs)) a chysylltu gyda hwy i amlygu eich arbenigedd a'ch sail tystiolaeth. Gallwch hefyd edrych ar ystod o friffiau a gwybodaeth a gynhyrchir gan y gwasanaeth ymchwil yr Aelodau ar eu gwefannau. Anelir y rhain yn gyntaf at yr AC, ond gallant hefyd fod yn ddefnyddiol i fudd-ddeiliaid allanol.

## Gwybodaeth bellach

### Comisiwn y Cynulliad

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am Gomisiwn y Cynulliad ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru [www.cynulliadcymru.org/abthome](http://www.cynulliadcymru.org/abthome)

Neu fe allwch gysylltu â'r Comisiwn gan ddefnyddio'r canlynol:

E-bost: [assembly.info@wales.gsi.gov.uk](mailto:assembly.info@wales.gsi.gov.uk)

Ffôn: 0845 010 5500

Typetalk: 0845 010 5500

Minicom: 029 2089 8601

Ysgrifennu at: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd,  
Caerdydd, CF99 1NA

### Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

### Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â



**WcVA**  
**CgGC**

Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.cymru](http://www.wcva.cymru)